**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JB/0043/26

At:
Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru
Heddluoedd yng Nghymru

Copïau at:
Brif Swyddogion Cyllid Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cymru
Prif Gwnstabliaid Heddluoedd yng Nghymru
Prif Swyddogion Cyllid Heddluoedd yng Nghymru

30 Ionawr 2026

Annwyl Gomisiynwyr

**Setliad Terfynol yr Heddlu 2026-27**

Mae'r llythyr hwn yn eich hysbysu o elfen Llywodraeth Cymru o Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer heddluoedd yng Nghymru yn 2026-27, yn amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd holl heddluoedd Cymru yn derbyn cynnydd o 4.022% mewn cyllid craidd yn 2026-27.

Mae **Atodiad A** yn cynnwys manylion y Setliad Terfynol ar gyfer pob heddlu yng Nghymru. Mae cyfraniad Llywodraeth Cymru o £113.47m yn parhau yn ddigyfnewid o'r hyn a nodwyd yn Setliad Dros Dro yr Heddlu.

Rwy'n cydnabod y pwysau sydd ar wasanaethau plismona a'r costau cynyddol a wynebir. Fodd bynnag, rwy'n parhau i fod yn dra ymwybodol hefyd o'r heriau costau byw parhaus y mae llawer o aelwydydd yn eu profi. Mae'r cynnydd cyffredinol yn Setliad yr Heddlu yn rhagori ar ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o 2.5% yn 2026. Rwy'n eich annog, felly, i sicrhau bod unrhyw gynnydd arfaethedig mewn praesept yn ystyriol o hyn ac yn parhau i fod yn gyraeddadwy i aelwydydd sydd eisoes o dan straen ariannol sylweddol.

Bydd Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2026-27 (Setliad Terfynol – Comisiynwyr Heddlu a Throseddu) a gyhoeddir heddiw yn destun dadl yn y Senedd ar 3 Mawrth 2026.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r llythyr hwn, cysylltwch â'r Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol drwy LGFPSettlement@llyw.cymru.

Yn gywir

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

# Atodiad A: Setliad Terfynol yr Heddlu ar gyfer Cymru, 2026-27

**Tabl 1: Asesiad o Wariant Safonol (£m)**[1]

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 33.90 | 34.37 | 34.94 | 35.43 | 35.93 |
| Gwent | 50.55 | 51.24 | 52.00 | 52.72 | 53.47 |
| Gogledd Cymru | 48.85 | 49.53 | 50.39 | 51.11 | 51.84 |
| De Cymru | 117.83 | 119.42 | 120.77 | 122.45 | 124.17 |
| Cyfanswm | 251.12 | 254.56 | 258.09 | 261.71 | 265.41 |

**Tabl 2: Cyllid Allanol Cyfun (RSG+NNDR, £m)**[1]

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 8.67 | 8.49 | 8.41 | 8.10 | 8.02 |
| Gwent | 25.94 | 26.07 | 26.20 | 26.31 | 26.46 |
| Gogledd Cymru | 16.51 | 16.33 | 16.36 | 16.10 | 15.92 |
| De Cymru | 62.35 | 62.58 | 62.50 | 62.96 | 63.06 |
| Cyfanswm | 113.47 | 113.47 | 113.47 | 113.47 | 113.47 |

**Tabl 3: Grant yr Heddlu a’r cyllid atodol i Gymru (£m)**[1,2,3]

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 52.018 | 52.404 | 56.125 | 58.839 | 61.62 |
| Gwent | 62.343 | 62.520 | 67.672 | 71.033 | 74.81 |
| Gogledd Cymru | 71.895 | 72.381 | 77.651 | 81.403 | 85.51 |
| De Cymru | 131.918 | 132.369 | 144.068 | 151.277 | 159.80 |
| Cyfanswm | 318.173 | 319.674 | 345.515 | 362.552 | 381.73 |

**Tabl 4: Cyfanswm y Cymorth Canolog (£m)**[3,4,5]

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyfed-Powys | 60.684 | 60.896 | 64.538 | 66.938 | 72.06 |
| Gwent | 88.282 | 88.589 | 93.868 | 97.348 | 104.77 |
| Gogledd Cymru | 88.407 | 88.715 | 94.012 | 97.504 | 104.95 |
| De Cymru | 194.269 | 194.945 | 206.568 | 214.232 | 230.57 |
| Cyfanswm | 431.643 | 433.144 | 458.985 | 476.022 | 512.34 |

Nodiadau:

1.Yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2015, bu'r Swyddfa Gartref yn trosglwyddo cyllid yn flynyddol i Lywodraeth Cymru er mwyn i Lywodraeth Cymru ddarparu'r cyfraniad y cytunwyd arno ar ei chyfer at gyllid yr heddlu yng Nghymru. O 2022-23 ymlaen, ni chaiff y cyllid ychwanegol hwn ei drosglwyddo mwyach. Yn hytrach, y Swyddfa Gartref sy'n ei ddarparu drwy Grant yr Heddlu a'r Grant Atodol. O ganlyniad i hyn, mae cyfraniad Llywodraeth Cymru at blismona yn gostwng £29.93m o 2022-23. Newid gweinyddol yn unig yw hwn, ac nid yw'n golygu unrhyw newid yn y cyllid cyffredinol i unrhyw Heddlu.

2. Dyma swm grant yr heddlu a nodir yn Adroddiad Grant yr Heddlu sy’n cynnwys y dyraniad o dan ‘Fformiwla Ddyrannu Prif Grant yr Heddlu’ ac ‘Ychwanegu Rheol 1’ (adran 3 - colofnau a a b) plws swm y ‘cyllid atodol i Gymru’ y mae’r Swyddfa Gartref wedi’i sicrhau sydd ar gael.

3. Mae’r ffigurau wedi’u haddasu i gyfrif am gyllid y Gangen Arbennig.

4. Mae’r ffigurau a nodir yn cynnwys cyllid ‘Ychwanegu Rheol 2’.

5. Mae ffigurau ar gyfer 2023-24 wedi'u hailddatgan i gynnwys y cyllid yn ystod y flwyddyn a ddyfarnwyd i heddluoedd ar gyfer cytundeb cyflog 2023-24.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.